

Gwella gwasanaethau cancer, ag achub bywydau yng Nghymru



Galwadau manifesto Cancer Research UK ar gyfer etholiad 2021

- Ymrwymo i gynllun strategaeth cancer newydd i drawsnewid gwasanaethau a gwella canlyniadau
- Parhau i flaenoriaethu diagnosis cynnar o ganser i wella lefelau goroesi yng Nghymru
- Datblygu cynllun gweithlu cancer uchelgeisiol i sicrhau bod gweithlu Cymru yn addas ar gyfer y dyfodol
- Cyflwyno deddfwriaeth ar gyfyngu hyrwyddiadau prisiau ar fwyd sothach
- Gosod targed am Gymru ddi-fwg erbyn 2030, a gweithredu i'w gyrraedd

Cyflawni gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau cancer

Cancer yw prif achos marwolaeth yng Nghymru, gyda thua 19,000 o bobl yn cael eu diagnosisio â chanser bob blwyddynⁱ. Heddiw, mae ychydig dros hanner yn goroesi eu diagnosis cancer am 10 mlynedd neu fwy, o'i gymharu ag 1 o bob 4 yn y 1970auⁱⁱ. Er hyn, mae Cymru yn parhau i fod tu ôl i wledydd cymharol ar gyfer lefelau goroesi cancerⁱⁱⁱ. Er bod goroesiad wedi gwella yng Nghymru, mae cyfraddau goroesi blynyddol ar gyfer canserau'r stumog, y colon, y pancreas, yr ysgyfaint a'r ofari yn is na chyfartaledd y DU^{iv}. Bydd nifer yr achosion o ganser a gadarnhawyd yn cynyddu i 25,000 y flwyddyn erbyn 2035 - cynnydd o 6,000 i gymharu â lefelau heddiw^v. Er hyn, mae gwasanaethau eisoes yn brwydro i gadw i fyny ag anghenion cleifion ar hyn o bryd.

Nid yw cancer wedi stopio yn ystod COVID-19, ac mae staff y GIG wedi gweithio'n eithriadol o galed i gadw gwasanaethau brys i redeg wrth ymateb i'r achosion. Mae effaith COVID-19 ar wasanaethau cancer yng Nghymru wedi bod yn sylweddol, fel y gwelwn ledled y DU. Mae miloedd wedi colli allan ar sgrinio, ac mae oedi difrifol mewn pobl yn cael eu ddiagnosisio a thriniaeth cancer wedi gadael ôl-groniad a fydd yn cymryd ymdrech sylweddol i gael afael ag ef. Rhaid inni edrych y tu hwnt i adferiad ac ystyried sut gallwn drawsnewid canlyniadau cancer yng Nghymru yn wirioneddol i arbed mwy o fywydau.

Daeth Cynllun Cyflenwi cancer Llywodraeth Cymru i ben llynedd, ac mae hi wedi'i ddisodli gan Ddatganiad Ansawdd byr ar gyfer cancer sy'n brin o fanylion am sut y gellir gwella goroesiad cancer yng Nghymru. Rydym nawr yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i strategaeth ganser newydd. Byddai hyn yn rhaglen gynhwysfawr sydd wedi'i llunio i wella canlyniadau cancer a gwella ansawdd bywyd cleifion cancer a galluogi gwell rheolaeth, mwy o atebolrwydd a gwell gwasanaethau cancer. Rhaid i'r strategaeth ymrwymo i gynllun hirdymor newydd sy'n gosod amcanion clir ac uchelgeisiol ar ddiagnosis cynharach o ganser, gan sicrhau bod gan gleifion fynediad at y triniaethau cancer mwyaf effeithiol, a chefnogi'r amgylchedd ymchwil cancer.

Dylai Lywodraeth nesaf Cymru flaenoriaethu y diagnosis cynnar o ganser trwy cynyddu gallu mewn gwasanaethau diagnostig, a darparu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus ar arwyddion a symptomau cancer, a'i ariannu yn llawn

Blaenoriaethu diagnosis cynharach o ganser

Pe bai Cymru yn dal i fyny â'r cenhedloedd sy'n perfformio orau ar gyfer goroesi cancer, gellid achub miloedd o fywydau. Er mwyn gwella goroesiad cancer, bydd angen diagnosisio mwy o ganserau yn gynharach, pan fydd modd eu trin yn fwy llwyddiannus.

Mae ymwybyddiaeth o symptomau cancer yn elfen bwysig arall i wella diagnosis cynnar, trwy sicrhau bod pobl yn gwybod pryd i fynd at eu meddyg teulu, a rhoi hyder nad ydyn nhw'n gwastraffu amser y meddygon teulu trwy wneud hynny. Gall ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus gyfrannu at hyn, wrth geisio peidio â gwaethygu anghydraddoldebau iechyd. O ystyried effaith COVID-19 ar bobl yn cysylltu â'u meddyg teulu ynghylch symptomau sy'n peri pryder, mae'n debygol y bydd hyn yn bwysicach yn y dyfodol, i sicrhau'r cyhoedd y dylent ofyn am gymorth gan eu meddyg teulu.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gynyddu capasiti yn y gweithlu diagnostig, gosod targed ar gyfer y Llwybr Cancer Sengl fel bod 95% o gleifion yn dechrau triniaeth cyn pen 62 diwrnod o amheuaeth a chyflwyno ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus a ariennir yn llawn o arwyddion a symptomau cancer.

Datblygu dull cynaliadwy o ymdrin â'r gweithlu

Mae prinder o staff yng ngweithlu cancer Cymru yn sefyllfa hir sefydlog, ac mae hi wedi cyfyngu'r cynnydd ar y broses o wella diagnosis cynnar a lefelau goroesi. Cyn COVID-19, roedd Cymru yn profi bylchau sylweddol yn ei gweithlu diagnostig a cancer, megis delweddu, endoscopi, patholeg ac oncoleg an-lawfeddygol, a oedd yn effeithio'n ddifrifol ar ei gallu i wneud diagnosis o ganserau yn gynnar, darparu'r driniaeth ganser fwyaf effeithiol, a gwella goroesiad cancer. Er mwyn ymdopi â'r ôl-groniad o gleifion wedi'i achosi gan y pandemig, bydd angen capasiti ychwanegol mewn gwasanaethau cancer a diagnostic i ymateb i'r galw cynyddol. Bydd y bylchau presennol yn y gweithlu dim ond yn gwaethygu oni bai eu bod nhw'n cael sylw. Mae tua 30% o swyddi histopatholegydd ymgynghorol yn wag^{vi}, tra bod 11% o swyddi nyrsys endosgopi heb eu llenwi^{vii}.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i gynllun gweithlu cancer penodol a mynd i'r afael â'r bylchau ar draws y gweithlu cyfan, sy'n atal trawsnewid gwasanaethau cancer. Nid yn unig dylai hyn gynnwys mwy o recriwtio a hyfforddi, ond hefyd dylid edrych ar ddatblygu dull cymysgu sgiliau, lle gellir defnyddio'r staff presennol yn y ffordd fwyaf effeithiol a rhyddhau amser ymgynghorwyr.

Atal canserau trwy gyflawni Cymru ddi-fwg

Ysmygu tybaco yw'r achos mwyaf y gellir ei atal o ganser yng Nghymru. Gellir atal pedwar o bob deg cancer yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae 17% o oedolion yng Nghymru yn ysmygu ond mae hyn yn cynyddu i 21% yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru^{viii}. Mae ysmygu tybaco yn gyfrifol am tua 3,000 o achosion o ganser yng Nghymru bob flwyddyn^{ix}.

Mae cenhedloedd eraill y DU wedi gosod targed lle maen nhw'n anelu at fod yn rhydd o fwg (llai na 5% o achosion ysmygu). Mae ein rhagamcanion yn dangos bod disgwyl i Gymru gyrraedd mynychder ysmygu 5% erbyn 2037. Trwy gynyddu'r cyflymder o ddim ond 40%, gallai Cymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030. Pe bai Cymru'n cyflawni hyn, byddai 220,000 llai o ysmygwyr, gan atal llawer o ganserau pob blwyddyn^x.

Rhaid i Lywodraeth Cymru nesaf osod targed i fod yn ddi-fwg erbyn 2030, a strategaeth newydd, eang ac uchelgeisiol i reoli tybaco er mwyn cyflawni hyn. Dylai hyn gynnwys ymrwymiad i gyflwyno modelau newydd o roi'r gorau i ysmygu mewn ysbytai, ac ariannu ymgyrchoedd Help Me Quit a chyfryngau torfol yn llawn i annog pobl i beidio â chymryd rhan.

Targedu bwyd sothach i daclo gordewdra

Gorbwysu a gordewdra yw'r ail achos fwyaf o ganser y gellir ei atal yng Nghymru ar ôl ysmygu. Mae dros 1,000 o achosion cancer yn cael eu hachosi gan fod dros eich pwysau neu'n ordew yng Nghymru bob blwyddyn^{xi}. Gwnaed cynnydd cyfyngedig mewn ymdrechion i leihau cyfraddau gorbwysai a gordewdra ym mhoblogaeth oedolion Cymru (36%^{xii} a 25%^{xiii} yn y drefn honno).

Roedd y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach (Healthy Weight: Health Wales), a lansiwyd yn 2019, yn gam cadarnhaol i weithredu i daclo gordewdra. Y cam nesaf yw i gymhwyso a gweithredu hwn i geisio newid yr amgylchedd bwyd gordew Cymru, a gwella iechyd y cyhoedd. Bydd cyflwyno deddfwriaethau a chanllawiau yn helpu i hyrwyddo dewisiadau iachach a lleihau nifer yr achosion o bwysau gormodol, sy'n gysylltiedig â 13 math o ganser.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithredu'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach (Healthy Weight: Healthy Wales) ar frys, gan flaenoriaethu cyflwyno deddfwriaeth newydd i gyfyngu ar hyrwyddiadau prisiau ar fwydydd sothach sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen, a rhoi grym i awdurdodau lleol i ddefnyddio pwerau cynllunio i gyfyngu ar sefydlu siopau tecawê bwyd poeth newydd ger ysgolion.

Ynglŷn ag Cancer Research UK

Cancer Research UK yw'r elusen ganser annibynnol fwyaf yn y byd sy'n ymroddedig i achub bywydau trwy ymchwil. Ein huchelgais yw i weld 3 o bob 4 claf yn goroesi eu cancer erbyn 2034. Rydym yn cefnogi ymchwil ym mhob agwedd o ganser trwy waith dros 4,000 o wyddonwyr, meddygon a nyrsys. Yn 2019/20, gwnaethom fuddsoddi £4 miliwn mewn ymchwil yng Nghymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ariannu ymgyrchoedd marchnata iechyd yng Nghymru ar sgrinio coluddyn ac arwyddion a symptomau cancer yr ysgyfaint. Mae ein Rhaglen Hwylusydd yn cefnogi gofal sylfaenol mewn tri Bwrdd Iechyd Lleol i wella atgyfeiriadau o amheuaeth o ganser, yn ogystal â chefnogi sgrinio cancer.

Cyfeiriadau

ⁱ The International Cancer Benchmarking Partnership: Cancer survival in Australia, Canada, Denmark, Norway, Sweden, and the UK, 1995–2007 an analysis of population-based cancer registry data

ⁱⁱ Cancer Research UK (2018), Overview of cancer in Wales. <https://bit.ly/37vi0gJ>

ⁱⁱⁱ The International Cancer Benchmarking Partnership, Cancer survival in Australia, Canada, Denmark, Norway, Sweden, and the UK, 1995–2007 an analysis of population-based cancer registry data.

^{iv} Arnold M, et al, Progress in cancer control: survival, mortality and incidence in seven high-income countries 1995-2014, Lancet Oncology, (2019)

^v Smittenaar CR, Petersen KA, Stewart K, Moitt N. (2016) Cancer Incidence and Mortality Projections in the UK Until 2035:

(<https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/27727232>)

^{vi} Data collected by the Royal College of Pathologists Wales Regional Council and shared with CRUK December 2018

^{vii} <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s81222/Paper%201%20-%20Bowel%20Cancer%20UK.pdf>

^{viii} ASH Wales, Wales Smoking Statistics. (<https://ash.wales/wales-smoking-statistics/>)

^{ix} Brown et al. (2018) The fraction of cancer attributable to modifiable risk factors in England, Wales, Scotland, Northern Ireland, and the United Kingdom in 2015. British Journal of Cancer. (<https://www.nature.com/articles/s41416-018-0029-6>)

^x CRUK (2020), Smoking Prevalence Projections for England, Scotland, Wales and Northern Ireland, based on data for 2018/19.

https://www.cancerresearchuk.org/sites/default/files/cancer_research_uk_smoking_prevalence_projections_february_2020_final.pdf

^{xi} Brown, K. (2018). 'The fraction of cancer attributable to modifiable risk factors in England, Wales, Scotland, Northern Ireland and the United Kingdom in 2015'. British Journal of Cancer (<https://www.nature.com/articles/s41416-018-0029-6>).

^{xii} <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-07/adult-lifestyle-national-survey-wales-april-2019-march-2020-390.pdf>,

^{xiii} <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-07/adult-lifestyle-national-survey-wales-april-2019-march-2020-390.pdf>,